Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**Gwybodaeth i Gleifion**

# Tacrolimws

**Uned Llygaid**

---

## Beth ydy Tacrolimws?

Mae Tacrolimus (Prograf) yn gyffur a geir o ffwng. Mae wedi ei ddefnyddio i drin cleifion â llid ar ôl trawsblannu organau, megis y galon, yr arennau a'r iau. Mae angen i'w celloedd imiwnedd gael eu 'diffodd' i'w hatal rhag ymosod ar yr organ a roddwyd. Mae astudiaethau clinigol wedi dangos y gall Tacrolimus hefyd atal chwyddo yn y llygad.

## Pryd na ddylid defnyddio Tacrolimus?
## (Neu dim ond ar ôl trafod â'ch Meddyg Ymgynghorol)

- Os ydych yn feichiog neu mae'n bosibl eich bod yn feichiog.
- Os oes gennych glefyd yr iau neu'r arennau.
- Os ydych yn bwydo ar y fron.
- Os ydych wedi cael brechiadau'n ddiweddar neu am gael rhai'n fuan.
- Os ydych chi'n cymryd gwrth-geulydd megis Warfarin.
- Os oes diabetes arnoch.

## Pryd dylech fod yn ofalus wrth gymryd Tacrolimus?

**Rhowch wybod am y canlynol i'ch meddyg:**

- Mae clefyd ar eich calon
- Mae gennych hanes o salwch y system nerfol.
- Rydych yn cael pyliau o haint.
- Rydych yn cymryd unrhyw feddyginiaeth, yn arbennig poenladdwyr.

## A allaf gael fy imiwneiddio tra fy mod ar Tacrolimus?

**Dylech osgoi cael eich imiwneiddio gyda brechiadau byw fel:**

- Polio drwy dabledi
- Rwbela (y frech Almaenig)
- Y Clefyd Melyn
- Tyffoid drwy dabledi
- Y Diciáu

**Mae'n ddiogel cael eich imiwneiddio yn erbyn:**

- Hepatitis
- Ffliw
- Tetanws
- Brechiad niwmonia
- Meningofrechiad
- Polio drwy bigiad
- Tyffoid drwy bigiad

**Sut dylid cymryd Tacrolimws?**

- Dylid eu llyncu'n gyfan, nid eu cnoi na'u sugno.
- Cymerwch y tabledi'n ôl cyfarwyddyd eich Meddyg.
- Bydd eich arbenigwr yn dweud wrthych faint o'r feddyginiaeth y dylech ei chymryd. Gall y maint newid yn barhaus.
- Byddwch yn cymryd rhwng 2-6mg y dydd. Mae'n dibynnu ar eich pwysau a sut rydych yn ymateb i therapi.
- Os methwch ddos, dylech ei chymryd pan sylweddolwch. Ond, os nad ydych yn sylweddoli nes y diwrnod wedyn, anghofiwch amdani a chariwch ymlaen fel arfer. **Peidiwch â chymryd dwbl y ddos**
- Os cymrwch ormod o dabledi neu os yw rhywun arall drwy gamgymeriad yn cymryd eich meddyginiaeth, cysylltwch â'ch meddyg, fferyllydd neu'r ysbyty agosaf ar unwaith.

**Ydy Tacrolimus** yn effeithio ar ffrwythlondeb neu feichiogrwydd?

Rydym yn argymell i unrhyw ferch a all esgor plentyn sy'n cymryd triniaethau gwrthimiwnaidd osgoi mynd yn feichiog gan y gall rhai cyffuriau gynyddu'r risg o ddiffygion geni a/neu broblemau datblygiadol. Gallai fod angen i ddynion ar driniaethau gwrthimiwnaidd hefyd fod yn ofalus.

Mae'r ffurf fwyaf priodol ar atal cenhedlu'n dibynnu ar y meddyginiaethau rydych chi'n eu cymryd, felly gofynnwch i ni am gyngor. Rhowch wybod a ydych yn bwriadu dechrau teulu fel y gallwn drafod opsiynau triniaeth â chi.

**Beth yw'r sgil effeithiau posibl?**

Fel arfer mae'r corff yn goddef y driniaeth yn dda. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd ymatebion annymunol, gall rhai o'r rhain dawelu wrth i'ch triniaeth barhau.

I ddechrau gallech deimlo'n sâl ar ôl cymryd y tabledi. Mae eu cymryd ar ôl bwyta yn helpu i leddfu hyn.

Gallwch fod yn flinedig i ddechrau ond nid yw hyn yn para ar ôl eu cymryd am gyfnod.

Mae'n bosibl y bydd eich dwylo'n crynu a gall hyn barhau.

Caiff eich cyfrif gwaed a gweithrediad eich arennau eu monitro'n rheolaidd gyda phrofion gwaed oherwydd gall Tacrolimus achosi difrod i'r arenau. Yna caiff y ddos o gyffuriau ei gostwng neu ei hatal. Bydd y lefelau yn dychwelyd i normal wedyn.

Weithiau, gall pobl brofi cur pen neu boen yn eu cyhyrau.

Mae effeithiau llai cyffredin gan gynnwys teimlo'n aflonydd, effaith ar weithrediad yr iau a'r clefyd melyn. Mae rhai pobl yn cael mwy o heintiau firysol a bacterol, felly mae'n bwysig rhoi gwybod i'ch meddyg os teimlwch yn sâl.

Mae achosion o lymffoma wedi eu cofnodi ond maen nhw'n brin iawn. Os ydy'r effeithiau'n ddifrifol iawn, deuir â'r driniaeth i ben.

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau o ran y cyffur, cysylltwch â'ch meddyg teulu neu Adran y Llygaid yn Ysbyty Brenhinol Gwent -

Atgyfeiriadau brys - Allan o oriau:- 01633 – 238856

**Gwybodaeth Ychwanegol:-**

Mae gwybodaeth am Uveitis ar gyfer cleifion ac mae grŵp hunangymorth sy'n cynnig taflenni a chylchlythyrau y gallwch gysylltu â nhw os dymunwch.

Grŵp Gwybodaeth am Uveitis
South House
Sweening
Vidlein
Shetland Isles
ZE2 9QE

E-bost: info@uveitis.net

Gwefan: www.uveitis.net

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English".**